WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2019 – **Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1729A2020-21

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan Anthony Veale, Dave Thomas, Gillian Gillett a Verity Winn.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2018-19 yr Ymddiriedolaeth, er wrth wneud, rwyf wedi dod â rhai materion at sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol o fewn datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 8

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei arwain yn dda yn gyffredinol ac mae'n nodi ffyrdd i wella ansawdd data, rheoli digwyddiadau a seiberddiogelwch 8

Mae gan yr Ymddiriedolaeth dull cryf o ran cynllunio strategol ond mae'r gwaith o ddatblygu gwybodeg a chynlluniau'r gweithlu wedi bod yn araf 9

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wella llesiant a chynhyrchedd y gweithlu ond mae angen iddi gynyddu cyflymder cynllunio'r gweithlu i gyflawni ei chynllun tymor canolig integredig a'i strategaeth hirdymor 10

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, ond mae'n cydnabod y gallai gwneud gwelliannau pellach 11

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 12

Atodiad 2 – ffi archwilio 13

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 14

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i wneud ar ran Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2019. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

2 Rwyf wedi adrodd fy nghanfyddiadau mewn negeseuon allweddol o dan y penawdau canlynol:

- Archwilio cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

3 Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, a cheir rhestr o'r rhain yn Atodiad 1.

4 Mae Atodiad 2 yn cyflwyno amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2019.

5 Mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a amlygwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2019 a sut yr aed i'r afael â nhw yn ystod yr archwiliad.

6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid wedi cytuno bod yr adroddiad hwn yn ffeithiol gywir. Byddwn yn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 15 Ionawr 2020. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Anogwn yr Ymddiriedolaeth yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio mae fy nhîm wedi ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio cyfrifon

8 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoad.

9 Nid oedd fy archwiliad wedi tynnu sylw at unrhyw drafodion ariannol materol o fewn cyfrifon yr Ymddiriedolaeth 2018-19 nad oedd yn unol ag awdurdodau ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra trafodion ariannol o fewn ei chyfrifon ar gyfer 2018-19.

10 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth cydbwysedd ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 March 2019. Mae ganddi gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Gan nad oedd unrhyw faterion lle'r oedd angen tynnu sylw atynt, ni osodwyd adroddiad sylweddol ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

11 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- Canfu fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2019 bod yr Ymddiriedolaeth yn cael ei arwain a'i lywodraethu'n dda yn gyffredinol a'i bod wedi gwneud cynnydd da o ran addasu ei phrosesau a'u strwythurau er mwyn cyflenwi ei blaenoriaethau strategol yn well.
- Mae fy ngwaith ar weithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan yr Ymddiriedolaeth wedi canfod bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, ond mae'n cydnabod y gallai gwneud gwelliannau pellach.

12 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol

13 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2018-19. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi'r datganiadau yn elfen hanfodol o ddangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

14 Caiff fy nghyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

### Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2018-19 yr Ymddiriedolaeth, er wrth wneud, rwyf wedi dod â rhai materion at sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

15 Derbyniais y cyfrifon drafft mewn modd sy'n unol â'r terfynau cau rhagnodedig ac roedd y papurau gwaith ategol wedi'u paratoi at safon dda yn gyffredinol.

16 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth.

17 Mae'n rhaid i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 29 Mai 2019. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae’r tabl canlynol yn crynhoi a rhoi sylwadau ar y materion allweddol a nodwyd.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nodwyd un camddatganiad yn y datganiadau ariannol nad oedd wedi'i gywiro ac nad oeddwn yn ystyried ei fod yn faterol i'n barn ni. Roedd hwn yn ymwneud ag un achos am anaf parhaol a oedd yn gorddatgan darpariaethau a gwariant gan £105,000 a thanddatgan yn gyfatebol warged wrth gefn yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn. |
| Camddatganiadau wedi eu cywiro | Gwnaed nifer o addasiadau i'r cyfrifon drafft. Roedd y rhain yn fân yn ôl eu natur ac nid oeddynt yn cael effaith ar warged yr Ymddiriedolaeth a adroddwyd. |
| Materion sylweddol eraill | Ni nodais unrhyw faterion sylweddol ansoddol neu feintiol oedd yn ymwneud â'r cyfrifon. |

18 Cynhaliais adolygiad hefyd o’r ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i’r casgliad fod gwybodaeth gyfunol y parti i gontract yn cyd-fynd â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2019 a bod y ffurflen wedi’i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau’r Trysorlys.

## Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol o fewn datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth

Nid oedd fy archwiliad wedi tynnu sylw at unrhyw drafodion ariannol materol o fewn cyfrifon yr Ymddiriedolaeth 2018-19 nad oedd yn unol ag awdurdodau ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra trafodion ariannol o fewn ei chyfrifon ar gyfer 2018-19.

19 Rhaid i drafodion ariannol yr Ymddiriedolaeth cyd-fynd â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddo’r pwerau i dderbyn yr incwm a gwario'r hyn sydd ganddo. Mae ein gwaith yn adolygu’r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau incwm neu wariant perthnasol nad oes gan yr Ymddiriedolaeth yr hawl i’w derbyn neu eu gwario.

Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth cydbwysedd ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 March 2019 ac mae ganddi gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Gan nad oedd unrhyw faterion lle'r oedd angen tynnu sylw atynt, ni osodwyd adroddiad sylweddol ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

20 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'm barn lle rwyf eisiau tynnu sylw at faterion. Ni chyhoeddais adroddiad o sylwedd ar yr adroddiad gan fod yr Ymddiriedolaeth wedi bodloni ei dyletswyddau ariannol ac nid oedd unrhyw faterion eraill yn gofyn am adroddiad.

21 Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ei henw da wrth gyflawni cydbwysedd ariannol yn 2018-19 ac adroddodd cyfanswm gwarged bach gwerth cyfanswm o £26,000. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol i adennill costau dros gyfnod tair blynedd 2016-2019 ac i gael cynllun tymor canolig integredig cymeradwy ar gyfer cyfnod 2018-19 i 2020-21.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

22 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- ymgymryd ag asesiad strwythuredig o drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer llywodraethu cyffredinol, cynllunio strategol, rheoli adnoddau ariannol, a rheoli cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu; ac
- yn ychwanegol, er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, rwyf wedi ymgymryd â gwaith i adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith.

23 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei arwain yn dda yn gyffredinol ac mae'n nodi ffyrdd i wella ansawdd data, rheoli digwyddiadau a seiberddiogelwch

24 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, y ffordd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnesau, ac i ba raddau y mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Edrychais yn ogystal ar y wybodaeth mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawni amcanion sefydliadol. Canfûm y canlynol.

25 Mae'r Bwrdd yn parhau i weithredu mewn modd effeithiol a cheisio cyfleoedd i wella. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Sicrwydd Bwrdd cadarn a threfniadau rheoli risg a pherfformiad effeithiol. Mae trefniadau yn parhau i esblygu fel y mae'r Ymddiriedolaeth yn alinio ei strwythurau a phrosesau i'w blaenoriaethau strategol. Yn benodol, mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi ffyrdd i wella'i ddull o ran ansawdd data, rheoli digwyddiadau a seiberddiogelwch. Mae'r strwythur pwyllgor newydd wedi dod â rhannau o fusnes yr Ymddiriedolaeth mewn i'r system sicrwydd mewn modd mwy clir. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i archwilio meysydd lle y gall gwella llinellau golwg o'r staff sy'n cyflenwi gwasanaethau swyddogaethau rheng flaen i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.

26 Mae gan yr Ymddiriedolaeth trefniadau effeithiol ar gyfer olrhain argymhellion archwilio mewnol ac allanol a nodi'r nifer o weithredoedd sydd wedi'u cwblhau, sydd ar amser neu sy'n hwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau gweithrediadau i fynd i'r afael a fy argymhellion asesiadau strwythuredig o 2018.

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth dull cryf o ran cynllunio strategol ond mae'r gwaith o ddatblygu gwybodeg a chynlluniau'r gweithlu wedi bod yn araf

27 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig y ffordd y mae'r Bwrdd yn denu partneriaid ac yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Gwneuthum asesu hefyd pa mor dda mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio'r gwaith o gyflawni ei amcanion a sut mae'n monitro'r cynnydd o ran cyflawni'r cynlluniau. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

28 Mae aelodau'r Bwrdd a rhanddeiliaid yn ymgysylltu â'r broses cynllunio ac mae'r Ymddiriedolaeth yn dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cyflenwi ei strategaeth. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn araf o ran datblygu cynlluniau i nodi sut fyddai ei gweithlu a swyddogaethau gwybodeg yn cefnogi ei strategaeth hirdymor. Fodd bynnag, mae'n bwriadu cwblhau ei Strategaeth ar gyfer Pobl a'i chynllun gweithlu ym mis Ionawr 2020 a chynhyrchu cynllun gweithredu i wella ei swyddogaeth gwybodeg. Yn fwy eang, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried sut i integreiddio ei swyddogaethau enablu megis pobl a datblygu sefydliadol a gwybodeg mewn cynllunio strategol yn well. Mae gan yr Ymddiriedolaeth dull cryf o ran monitro cyflawniad ei chynllun strategol ac mae'n gwella fformat adroddiadau ei Bwrdd er mwyn gwneud y wybodaeth yn fwy hygyrch.

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth trefniadau rheoli ariannol cadarn ac mae mewn sefyllfa dda i gyflawni safle ariannol cytbwys ar gyfer 2019-20

29 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig y camau gweithredu y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i gyflawni cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Gwneuthum asesu hefyd safle ariannol y

sefydliad, y dull o ran cynllunio ariannol, rheolaethau ariannol a stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

30 Mae gan yr Ymddiriedolaeth rheolaethau cynllunio a rheoli ariannol cadarn ac mae wedi gwella ei threfniadau caffael. Mae adroddiadau cyllid y Bwrdd yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynglŷn â chynlluniau gwario ac arbedion ond gallai'r Ymddiriedolaeth adrodd yn fwy rheolaidd ynghylch effaith arbedion effeithlonrwydd sydd wedi'u hail-fuddsoddi.

31 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yn ymarfer paru data bob dwy flynedd sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Cyflwynodd cyrff sy'n cymryd rhan data i'r ymarfer Menter Twyll Genedlaethol presennol ym mis Hydref 2018. Ym mis Ionawr 2019, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 848 o barau data drwy adnodd gwe y Fenter Twyll Genedlaethol gan gynnwys 159 o barau a argymhellir[1]. Mae adnodd gwe y Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n cofnodi canfyddiadau adolygiad yr Ymddiriedolaeth o'i pharau data, yn dangos, fel ar 15 Hydref 2019, bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth adolygu'r rhan fwyaf o barau risg uchel gydag ymholiadau parhaus mewn nifer bychan o achosion. Yn ogystal, cytunodd yr Ymddiriedolaeth y byddai'n archwilio 10% o barau di-dâl/credydwyr ac yn cynnal ymchwiliadau pellach os byddai'n nodi anghysonderau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ei bod wedi cyflawni ei tharged o 10% ac nid oedd wedi nodi unrhyw anghysonderau sylweddol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wella llesiant a chynhyrchedd y gweithlu ond mae angen iddi gynyddu cyflymder cynllunio'r gweithlu i gyflawni ei chynllun tymor canolig integredig a'i strategaeth hirdymor

32 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig y camau gweithredu y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i sicrhau bod ei weithlu'n cael ei reoli'n dda a'i fod yn gynhyrchiol. Gwneuthum hefyd asesu'r trefniadau ar gyfer rhoi sylw i anghenion hyfforddi a datblygu a chamau i ymgysylltu â staff a gwrando arnynt a mynd i'r afael ag anghenion llesiant. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

33 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella perfformiad y gweithlu mewn meysydd allweddol ac mae'n gweithio i wella trosiant a lleihau ei gwariant ar staff asiantaeth. Mae'r cynnydd o ran datblygu a gweithredu dull strategol dysgu a datblygu wedi bod yn araf. Mae Strategaeth ar gyfer Pobl a chynllun gweithlu'r Ymddiriedolaeth blwyddyn yn hwyr sy'n cyfyngu ar ei gallu i nodi anghenion y gweithlu ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dangos ei hymrwymiad o ran

[1] Mae rhai parau wedi'u categoreiddio fel 'parau a argymhellir' oherwydd fe'u hystyrir yn risg uchel ac fe'u hargymhellir ar gyfer adolygiad cynnar.

ymgysylltu â staff a llesiant ac mae'n parhau i geisio gwelliannau o ran ei dull. Mae'n hyrwyddo llesiant staff ond nid yw wedi nodi'i chynlluniau ar gyfer dysgu a datblygu'r gweithlu.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, ond mae'n cydnabod y gallai gwneud gwelliannau pellach

34 Adolygais i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio er mwyn gwneud pethau'n wahanol. Gwnaeth fy ngwaith ystyried sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hymwreiddio mewn trefniadau craidd, ac roedd yn cynnwys archwilio cam a oedd yn cael ei gymryd gan yr Ymddiriedolaeth i gyflawni un o'i hamcanion llesiant. Y cam a gafodd ei adolygu oedd dull yr Ymddiriedolaeth o ran datblygu ei strategaeth hirdymor, 'Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru'.

35 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy mewn i brosesau, diwylliant sefydliadol ac ymddygiad staff, ond mae'n cydnabod y gallai gwneud gwelliannau pellach.

36 Mae'n amlwg bod yr Ymddiriedolaeth wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio i'w datblygiad o'r strategaeth hirdymor. Nod y strategaeth yw codi proffil ataliaeth ledled Cymru ac i annog ffocws hirdymor. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys ystod eang o randdeiliaid er mwyn datblygu ei strategaeth ac mae'n parhau i annog diwylliant o gydweithredu o fewn yr Ymddiriedolaeth ac yn allanol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu gwella'r ffordd y mae'n mesur effaith ei strategaeth ar lesiant y boblogaeth drwy ddatblygu mesurau canlyniadau gwell. Mae blaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth wedi'u hintegreiddio â'i hamcanion llesiant ond mae'n fwriad gan yr Ymddiriedolaeth y bydd y mesurau canlyniadau gwell yn integreiddio ei chynlluniau yn well gyda chynlluniau ei phartneriaid.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

### Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae’r tabl canlynol yn rhestru’r adroddiadau a gyflwynwyd i’r Ymddiriedolaeth yn 2019.

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2019 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2019 |
| Memorandwm o ddatganiadau ariannol | Medi 2019 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2019 | Rhagfyr 2019 |
| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Rhagfyr 2019 |
| **Arall** | |
| Cynllun archwilio 2019 | Ionawr 2019 |

### Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo

Yn ogystal, ceir nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda dyddiadau arfaethedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
| --- | --- |
| Trefniadau llywodraethu ansawdd | Mehefin 2020<br>(heb ddechrau eto) |
| Adolygiad dilynol o drefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol | Chwefror 2020 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2019 ffi archwilio arfaethedig o £151,155 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, (ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd) yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

### Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2019 y risgiau archwilio ariannol ar gyfer yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2018-19. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol. | Cynigiodd fy nhîm archwilio:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Ystyriodd fy nhîm archwilio y ffactorau risg a nodir yn ISA240 a ni wnaeth cwblhau ein harchwiliad nodi unrhyw dystiolaeth o reolwyr yn diystyru rheolaethau. |
| Bydd offerynnau ariannol Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 9 yn gymwys o 1 Ebrill 2018, a bydd y rhain yn cyflwyno dull newydd ar sail egwyddorion o ddosbarthu a mesur asedau ariannol. Maent hefyd yn cyflwyno methodoleg amhariad newydd ar gyfer asedau ariannol sy'n seiliedig ar golledion disgwyliedig yn hytrach na cholledion a gafwyd. Bydd hyn yn arwain at gydnabyddiaeth gynharach o ran colledion credyd disgwyliedig a bydd yn cael effaith ar sut mae'r ddarpariaeth | Cynigiodd fy nhîm archwilio i asesu effeithiau tebygol yr IFRSau newydd ac ymgymryd â gwaith i ymateb i unrhyw risgiau o gamddatganiadau perthnasol a nodir. | Gwnaeth fy nhîm archwilio asesu effeithiau'r IFRSau newydd ac ymgymryd â gwaith mewn ymateb i risgiau a nodwyd nad oedd yn nodi unrhyw faterion wrth gymhwyso'r safonau cyfrifyddu newydd. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| dyledion gwael yn cael ei chyfrifo.<br>Mae refeniw IFRS 15 o gontractau â chwsmeriaid yn cyflwyno model pum cam ar gyfer cydnabod y refeniw sy'n codi yn sgil contractau â chwsmeriaid. Mae'n seiliedig ar egwyddor graidd sy'n gofyn i gydnabyddiaeth refeniw ddisgrifio'r gwaith o drosglwyddo nwyddau neu wasanaethau a addawyd i'r cwsmer mewn swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r corff yn disgwyl cael yr hawl iddi, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Bydd hefyd yn gofyn am ddatgeliadau mwy trylwyr na'r hyn sydd eu hangen ar hyn o bryd. | | |
| Mae nifer o newidiadau wedi digwydd i'r tîm uwch-reolwyr yn ystod y flwyddyn ariannol. Ceir risg nad yw'r newidiadau hyn wedi'u datgelu'n gywir o fewn Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth. | Cynigiodd fy nhîm archwilio i brofi'r datgeliadau a wnaed yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac i adolygu unrhyw newidiadau i rolau a chyfrifoldebau a newidiadau cysylltiedig i lefelau taliadau cydnabyddiaeth. | Profodd fy nhîm archwilio y datgeliadau a wnaed yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac adolygu newidiadau i rolau a chyfrifoldebau a'r newidiadau cysylltiedig i lefelau taliadau cydnabyddiaeth.<br>Nododd hyn nifer o addasiadau sy'n ofynnol i'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth, a gywirwyd gan yr Ymddiriedolaeth. |
| Mae gan Ymddiriedolaethau'r GIG dyletswydd ariannol i adennill costau dros gyfnod tair blynedd treigl. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld safle lle y mae'n adennill costau ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r ddyletswydd hon yn | Cynigiodd fy nhîm archwilio i ganolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys adroddiadau unochrog. | Ystyriodd fy nhîm archwilio'r rhannau o'r cyfrifon sy'n fwy tebygol o gynnwys adroddiadau unochrog a gwnaethant adolygu:<br>• amcangyfrifon cyfrifyddu, beirniadaethau a phenderfyniadau unochrog a wnaed gan reolwyr; |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| cynyddu'r risg y gallai beirniadaethau ac amcangyfrifon rheolaeth a gynhwysir yn y datganiadau ariannol fod yn unochrog mewn ymgais i gyflawni dyletswydd ariannol.<br>Lle na fodlonir y ddyletswydd ariannol, byddaf yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant. | | • credydwyr ar gyfer rhwymedigaethau sydd heb eu cofnodi; a<br>• dyledwyr am orddatgan yr incwm sy'n ddyledus.<br>Ni chododd unrhyw faterion o’r gwaith a wnaed. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru